

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ynni Dŵr**

Mae hanes hir yng Nghymru o ddefnyddio ynni dŵr, ac yn 2014, ynni dŵr oedd 6% o'r capasiti carbon isel a oedd wedi'i osod. Mae ynni dŵr yn fanteisiol i'r economi leol, a gwelwyd cryn gynnydd yn y maes yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd y cymhellion a gynigir gan y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith y mae'r gostyngiad i dariffau cyflenwi trydan wedi'i chael ar y diwydiant. Er hynny, o fireinio'r model busnes, cyflwyno trefn reoleiddio briodol a thargedu cymorth, mae potensial i ddatblygu llawer mwy o brosiectau ynni dŵr yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ynni Dŵr. Prif fyrdwn yr argymhellion yw creu trefn drwyddedu effeithlon ar gyfer ynni dŵr, gan sicrhau bod y drefn honno'n un hawdd i'w deall a'i defnyddio, ei bod yn rhoi arweiniad clir, a bod y taliadau a godir yn briodol. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i rai o'r argymhellion ond rydym yn credu y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r canlyniad a ddymunir.

Er i'r Grŵp fod yn ddefnyddiol, mae wedi hoelio sylw ar yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ei wneud. Rydym yn disgwyl i'r diwydiant weithredu hefyd. Rydym yn deall yr her sy'n wynebu'r diwydiant, ac rydym yn bwriadu parhau i gynnig cymorth i'r diwydiant ddatblygu atebion arloesol er mwyn lleihau costau prosiectau ynni dŵr a sefydlu modelau busnes sy'n gweithio o dan y drefn gyllido sydd ohoni.

Wrth dderbyn yr argymhellion, rydym yn falch o gael rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a wnaed eisoes i roi'r argymhellion hynny ar waith ac yn falch hefyd o gael nodi pa gamau ychwanegol y bwriedir eu cymryd.

### **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae gan CNC rôl bwysig o ran cynllunio a thrwyddedu. Rydym wedi bod yn glir am yr angen i CNC barhau i wella'i brosesau trwyddedu. Mae CNC wedi gwneud gwelliannau mawr i'r ffordd y mae'n rheoli'r broses trwyddedu ar gyfer ynni dŵr, ac mae hynny wedi o fudd iddo ef ac i'r diwydiant. Mae argymhellion y Grŵp yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gwelliannau pellach i'r gwaith y mae CNC yn ei wneud i gefnogi ynni dŵr yng Nghymru.

Prif nod rhaglen CNC o welliant parhaus yw darparu gwasanaeth trwyddedu cymesur ac effeithlon sy'n cynnig gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid. Mae CNC wedi dechrau gweithio ar nifer o'r argymhellion yn Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ceir crynodeb isod o hynt y gwaith hwnnw hyd yma.

### ***Amrywio trwyddedau codi dŵr (argymhellion 1 a 2)***

Mae CNC wedi nodi'r deiliaid trwyddedau hynny y gallai fod yn briodol amrywio'u trwyddedau er mwyn caniatáu iddynt godi mwy o ddŵr, ac mae wedi drafftio llythyrau cyngor i'w hanfon at y deiliaid trwyddedau hynny. Fodd bynnag, bu'n rhaid i CNC fynd ati i ddiwygio'i ganllawiau ar ynni dŵr er mwyn ymateb i newidiadau yn y modd y

mae rhai agweddau ar y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn cael eu dehongli ar ôl dyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Mae'n bosibl y bydd angen newid mymryn ar ei ganllawiau ar ynni dŵr cyn i'r llythyrau gael eu hanfon.

### ***Trwyddedu cynlluniau ynni dŵr risg isel (argymhelliad 3)***

Mae CNC wedi gwneud llawer eisoës i ennyn gwell dealltwriaeth o'r agweddau technegol ar gynlluniau ynni dŵr risg isel ac i weld pa opsiynau y gellid eu mabwysiadu wrth ddylunio cynlluniau o'r fath er mwyn lleihau mwy ar y risg i'r amgylchedd a lliniaru eu heffeithiau. Mae ei waith yn hyn o beth yn cynnwys dau ymweliad safle addysgiadol gyda datblygwyr cynlluniau ynni dŵr bach iawn (*pico*) a gweithdy Cymru gyfan i'r staff gyda rhai o arbenigwyr CNC. Roedd digwyddiad rhwydweithio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Ynni Dŵr Prydain ym mis Chwefror yn gyfle i holi barn rhanddeiliaid.

Mae CNC wedi nodi meysydd lle y gallai fod modd symleiddio rhai o'r gofynion trwyddedu ond gan barhau i fodloni dyletswyddau i ddiogelu'r amgylchedd. Mae wedi datblygu gwelliannau posibl ar gyfer cynlluniau risg isel, ac opsiynau ar gyfer proses drwyddedu. Maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan grwpiau cyfreithiol a thechnegol yn CNC.

### ***Symleiddio prosesau gweinyddol (argymhelliad 4)***

Mae gwaith rhagbaratoawl wedi'i wneud yn y maes hwn, gan nodi lle y gellid gwella mwy ar y prosesau hyn a chan fanteisio ar brofiad wrth drwyddedu cynlluniau ynni dŵr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhagor o waith i'w wneud er mwyn troi meysydd gwella yn brosesau gweinyddol newydd.

### ***Canllawiau ar-lein (argymhelliad 5)***

Bydd diweddarau'r canllawiau yn ategu argymhellion 3 a 4 a bwriedir mynd ati i wneud hynny wrth i'r amryfal gamau gweithredu dynnu at eu terfyn. Bydd y canllawiau newydd yn nodi unrhyw safonau technegol, dulliau gweithredu a phrosesau newydd a gaiff eu datblygu mewn ymateb i'r argymhellion eraill.

### ***Ffioedd trwyddedu (argymhelliad 6)***

Mae profiad diweddar wedi dangos bod ceisiadau i ddiwygio trwyddedau codi dŵr ar gyfer ynni dŵr yn amrywio o ran eu cynnwys technegol ac nad ydynt, o'r herwydd, yn ffitio'n daclus i'r categorïau ffioedd presennol. Bydd CNC yn adolygu'r amryfal fathau o amrywiadau ac yn asesu'r adnoddau staffio y bydd eu hangen er mwyn penderfynu ar y trwyddedau hynny. Gellir mynd ati wedyn i gategoreiddio ceisiadau ac i bennu'r ffioedd priodol. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r ymgynghoriad ar godi tâl a gynhelir yn 2017/2018. Yn y cyfamser, mae CNC wedi asesu'r mathau presennol o amrywiadau a'u rhoi yn y band codi tâl mwyaf priodol sydd yn y cynllun codi tâl presennol.

## **Llywodraeth Cymru**

Mae dau o'r wyth argymhelliad yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.

### ***Cynllunio (argymhelliad 7)***

Yn aml, mae prosiectau bach yn wynebu costau datblygu anghymesur o uchel. Mae cael caniatâd cynllunio yn un o'r costau hynny a gall fod yn rhwystr sy'n atal prosiectau rhag symud ymlaen o'r cam datblygu i'r cam adeiladu. Gallai symleiddio'r drefn gynllunio a thrwyddedu ar gyfer y datblygiadau bach, risg isel hyn fod o gymorth mawr i sicrhau bod mwy ohonynt yn cael eu hadeiladu.

Mae Hawliau Datblygu a Ganiateir yn cael eu hadolygu eleni ac rydym yn ystyried pa mor ymarferol fyddai ehangu hawliau datblygu a ganiateir fel eu bod yn cynnwys prosiectau ynni dŵr risg isel ar raddfa fach. Rydym yn edrych yn fanwl ar sut y gellid mynd ati i bennu bod cynlluniau ynni dŵr bach yn ddatblygiadau a ganiateir, ac rydym wrthi'n casglu tystiolaeth a fydd yn llywio'r penderfyniad yn hynny o beth. Mae'n bosibl y gallai hynny olygu na fyddai angen caniatâd cynllunio o gwbl ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau ynni dŵr.

Byddai angen ymgynghori ar y mater hwn yn ystod y adolygiad ehangach o ddatblygiadau a ganiateir, a fydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni neu'n gynnar y flwyddyn nesaf.

### ***Ardrethi Annomestig (argymhelliad 8)***

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyfrifo gwerth ardrethol ynni adnewyddadwy yn defnyddio pris trydan a lefel Tariff Cyflenwi Llywodraeth y DU ar gyfer 1 Ebrill 2015. Dyna'r dyddiad prisio a bennwyd mewn deddfwriaeth ar gyfer proses ailbriso 2017 er mwyn sicrhau bod pob eiddo annomestig yn cael ei brisio ar yr un pryd.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (yr Asiantaeth) wedi gweithio'n agos â chymdeithasau masnach i drafod a, lle y bo modd, i gytuno ar ffyrdd o brisio ac ar y fethodoleg a ddefnyddir wrth wneud hynny. Yn ogystal â hynny, mae Fforwm Trethdalwyr Cymru, dan arweiniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio, wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y diwydiant wrth ailbriso, ac mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain yn un o gynrychiolwyr y diwydiant ar y Fforwm.

Mae'r Asiantaeth wedi dweud ei bod yn gweld ystod eang o werthoedd ardrethol. Oherwydd bod cyn lleied o safoni yn achos cynlluniau ynni dŵr, mae'r Asiantaeth wedi bod yn prisio ar sail sefyllfa ariannol unigol y cynlluniau hynny. Mae'r fethodoleg hon yn golygu bod rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled ac, yn wir, bydd datblygiadau cyn 2016 wedi elwa'n fawr ar y ffaith bod cyfradd yr incwm tybiedig yn arfer bod yn isel. Mae Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain wedi darparu tystiolaeth am yr effaith y bydd yr ailbriso'n ei chael ar brosiectau ynni dŵr yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn rhyddhad ardrethi i fusnesau bach tan 31 Mawrth 2018, sy'n golygu y bydd cymorth gwerth £100 miliwn ar gael i dros 70,000 o dalwyr ardrethi yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyflwyno cynllun rhyddhad trosiannol gwerth £10 miliwn. Mae'n cael ei ariannu'n llawn, a bydd yn helpu talwyr ardrethi cymwys drwy ganiatáu iddynt ymdopi'n raddol, dros gyfnod o dair blynedd, ag unrhyw gynnydd yn y symiau y bydd yn rhaid iddynt eu talu. Bydd y ddau gynllun hyn o fudd i rai o'r prosiectau ynni dŵr sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r ailbriso.

Bydd cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes parhaol newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer Busnesau Bach o 2018 ymlaen. Wrth fynd ati i ddatblygu'r cynllun hwn, byddwn yn ystyried yr achos o blaid cynnig cefnogaeth a chymorth penodol ar gyfer rhai mathau

o brosiectau, gan gynnwys prosiectau ynni cymunedol a phrosiectau dŵr cymunedol. Byddwn hefyd yn asesu'r sefyllfa yn yr Alban.

Fodd bynnag, wrth inni weithio i ddatrys y mater hwn, mae problemau sylfaenol wedi dod i'r amlwg gyda'r model busnes sy'n cael ei ddefnyddio gan y diwydiant ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn gynt yn yr ymateb hwn. Y datblygiadau dan sylw yw ffynonellau ynni hirdymor sydd â chostau cychwynnol uchel, a gallent elwa ar fodel cyllido gwahanol a mwy hirdymor na'r un a ddefnyddir ar gyfer y diwydiant ynni ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gydweithio ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar yr heriau a nodwyd gan y Grŵp.